OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1326

## Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 5, Arbedion, Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2017

**Datgymhwysiad trosiannol o adran 5 o'r Ddeddf ar gyfer darparwyr presennol y tu allan i Gymru sy'n gwneud cais i gofrestru o dan y Ddeddf**

**14.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i berson sydd, yn union cyn 1 Chwefror 2018, yn darparu gwasanaeth yng Nghymru o fath a fyddai, ar ôl y prif ddiwrnod penodedig, yn ei gwneud yn ofynnol i'r person fod wedi ei gofrestru fel darparwr gwasanaeth cymorth cartref ond nad yw wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf 2000 fel person sy'n cynnal asiantaeth gofal cartref dim ond oherwydd nad yw'r ymgymeriad sy'n darparu'r gwasanaethau, neu'n trefnu bod y gwasanaethau yn cael eu darparu, yng Nghymru.

(2) Pan fo person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo yn gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth cymorth cartref o dan adran 6 o'r Ddeddf cyn 2 Ebrill 2018, nid yw adran 5 o'r Ddeddf yn gymwys i'r person hwnnw o ran y ddarpariaeth o wasanaeth cymorth cartref ar gyfer y mannau a bennir yn y cais hyd nes y penderfynir yn derfynol ar y cais.

(3) Mae i'r cyfeiriad ym mharagraff (2) at benderfynu'n derfynol ar gais yr un ystyr ag yn erthygl 4(4) a (5).